NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mewnblaniad falf cava ar gyfer dadlynciad tricuspid

21 Awst 2024

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon, Mae hyn am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr ymchwil.

Mae'r falf tricuspid yn eistedd rhwng y siambrau uchaf ac isaf ar ochr dde'r galon. Bydd dadlynciad tricuspid yn digwydd pan na fydd y falf tricuspid yn cau'n iawn a'r gwaed yn llifo'r ffordd anghywir trwyddo (dadlynciad). Gall y gwaed hefyd lifo'n ôl (adlif) i'r 2 brif wythïen (gwythiennau cafa) sy'n dod â gwaed yn ôl o'r corff i'r galon. Mae hyn yn gwneud i'r galon weithio'n fwy caled ac, mewn achosion difrifol, gall arwain at fethiant y galon.

Yn y driniaeth hon, caiff falfiau o feinwe anifeiliaid neu ddynol (bioprosthetig) eu gosod (mewnblannu) i mewn i un neu ddwy o'r gwythiennau cafa drwy wythïen yn y werddyr. Gwneir hyn heb darfu ar y falf tricuspid. Y nod yw lleihau adlif cafa a dadlynciad tricuspid, gan leihau symptomau methiant y galon a gwella ansawdd bywyd i bobl sy'n methu cael llawdriniaeth agored ar y galon.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**
Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar fethiant y galon fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth mae dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil yn ei olygu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8990-4